# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001

**Y cefndir**

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i ragnodi'r ffurflenni sydd i'w defnyddio mewn ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig.

Mae adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ymestyn y pŵer i ragnodi ffurf dogfen ar wahân, neu ffurf geiriau ar wahân, yn Gymraeg ac yn Saesneg ac, yn achos dogfen, ffurflen sy'n rhannol Gymraeg a rhannol Saesneg,

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni perthnasol y gellir eu defnyddio yng Nghymru yn hytrach na fersiwn Saesneg y ffurflenni.

Bwriedir defnyddio'r weithdrefn gyflymach ar gyfer y Cyfarfod llawn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Atodlen 2**

Gan y bydd y tystysgrifau hyn yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd, awgrymodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor y byddai'n briodol hepgor defnyddio'r 'a oedd' ailadroddus yn y testun Cymraeg er mwyn eu gwneud yn haws eu deall**.**

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

20 Mawrth 2001